OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2438 (Cy. 235)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod (y mae rhaid iddi fod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11 o'r Ddeddf honno) onid yw'r swyddogaethau hynny i beidio â bod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/399 (Cy.45)) ("y Prif Reoliadau") yn pennu'r swyddogaethau hynny nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau.

Mae Atodlen 2 i'r Prif Reoliadau yn rhestru'r swyddogaethau hynny y caniateir iddynt fod (ond nad oes angen iddynt fod) yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod. Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr hon drwy ychwanegu swyddogaethau ynglŷn â chymeradwyo cynigion trefniadaeth ysgolion, neu benderfynu arnynt, o dan adran 51 neu adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Effaith y diwygiad hwn yw bod gan awdurdod lleol ddisgresiwn o ran a yw'r swyddogaethau o dan sylw yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 2438 (Cy. 235)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Medi 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *26 Medi 2013* |
| *Yn dod i rym* | *22 Hydref 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 13 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2013 a deuant i rym ar 22 Hydref 2013.

**Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (swyddogaethau y caniateir iddynt fod (ond nad oes angen iddynt fod) yn gyfrifoldeb i

(**1**) 2000 p.22. Diwygiwyd adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac amnewidiwyd cyfeiriadau at Weinidogion Cymru yn adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 gan adran 22, Atodlen 3, paragraffau 8, 13(1) a (3) o'r Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 2007/399 (Cy.45).

weithrediaeth awdurdod), ar ôl paragraff 24, mewnosoder—

> "**25.** Swyddogaethau ynglŷn â chymeradwyaeth gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu benderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**)."

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, un o Weinidogion Cymru

21 Medi 2013

(**1**) 2013 dccc 1.